Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *IS-BWYLLGOR DEDDFAU TRWYDDEDU A GAMBLO*

***2.01 PM - DYDD MAWRTH, 28 MEHEFIN 2022***

**Hybrid Microsoft Teams/Hybrid Siambr y Cyngor**

1. Cyhoeddiad y Cadeirydd

   Cyflwynodd y Cynghorydd Henton ei hun i'r Pwyllgor a chroesawodd bawb i'r gwrandawiad.

2. Datganiadau o fuddiannau

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau

3. Cais am roi Trwydded Mangre - A&K Catering Ltd

   Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol i gymeradwyo Trwydded Mangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | A&K Catering Ltd |
| Cyfeiriad y fangre | 7A Y Parêd, Castell-nedd, SA11 1RB |
| Enw'r Ymgeisydd | A&K Catering Ltd |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | 7A Y Parêd, Castell-nedd, SA11 1RB |
| Enw'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig (GMD) | Bettina Kacziba |

   **PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r cais am roi Trwydded Mangre – A&K Catering Ltd, 7A Y Parêd, Castell-nedd SA11 1RB a wnaed gan A&K Catering Ltd, 7A Y Parêd, Castell-nedd SA11 1RB, yn amodol ar yr oriau gweithredu a'r amodau fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

4. Cais am roi Trwydded Mangre - Clwb Rygbi Pontardawe

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol i gymeradwyo Trwydded Mangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | Clwb Rygbi Pontardawe |
| Cyfeiriad y fangre | Ynysderw Road, Pontardawe SA8 4EG |
| Enw'r Ymgeisydd | Pontardawe Rugby Football Club Limited |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | Ynysderw Road, Pontardawe SA8 4EG |
| Enw'r GMD | Meirion Davies |

1. **PENDERFYNODD:** Yr Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais am drwydded mangre, gydag amodau. Byddai'r oriau gweithredu ac amodau canlynol yn berthnasol yn ogystal ag unrhyw amodau sy'n gyson â'r amserlen weithredu.

   Oriau Agor

   Dydd Llun i ddydd Sul 08:00 - 01:00

   Cyflenwi alcohol (ar y safle ac oddi arno)

   Dydd Llun i ddydd Sul 08:00 - 00:30

   Ffilmiau (dan do ac yn yr awyr agored (gan ddibynnu ar y tywydd))

   Dydd Llun i ddydd Sul 10:00 - 00:00
   Digwyddiadau Chwaraeon Dan Do

   Dydd Sul i ddydd Iau 10:00 - 00:00
   Dydd Gwener a dydd Sadwrn 10:00 - 00.30

   Cerddoriaeth fyw (dan do ac yn yr awyr agored (gan ddibynnu ar y tywydd))

   Dydd Sul i ddydd Iau 10:00 - 23:30
   Dydd Gwener a dydd Sadwrn 10:00 - 00:30

Dydd Sul Gŵyl y Banc 10:00 - 00:00

Cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do ac yn yr awyr agored (gan ddibynnu ar y tywydd))

Dydd Sul i ddydd Iau 10:00 - 23:30
Dydd Gwener a dydd Sadwrn 10:00 - 00:30
Dydd Sul Gŵyl y Banc 10:00 - 00:00

Perfformiadau Dawns (dan do ac yn yr awyr agored)

Dydd Sul i ddydd Iau 10:00 - 23:30
Dydd Gwener a dydd Sadwrn 10:00 - 00:30
Dydd Sul Gŵyl y Banc 10:00 - 00:00

Unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg (dan do ac yn yr awyr agored)

Dydd Sul i ddydd Iau 10:00 - 23:30
Dydd Gwener a dydd Sadwrn 10:00 - 00:30
Dydd Sul Gŵyl y Banc 10:00 - 00:00

Lluniaeth yn hwyr y nos (dan do ac yn yr awyr agored)

Nos Sul i nos Iau
23:00 - 23:30
Nos Wener a nos Sadwrn 23:00 - 00:30

- Ni fydd cerddoriaeth sydd wedi'i mwyhau na cherddoriaeth sydd heb ei mwyhau y tu allan rhwng 23:00 a 10:00.

- Ni chaniateir gwerthu alcohol yn allanol rhwng 23:00 a 10:00, h.y. bydd y bar allanol yn cau rhwng yr oriau hyn.

- Bydd o leiaf 2 oruchwyliwr drws trwyddedig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ar ddyletswydd o 23:00 tan amser cau bob nos Iau, nos Wener, nos Sadwrn a nos Sul yng Ngŵyl Pontardawe.

- Bydd o leiaf 2 oruchwyliwr drws trwyddedig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ar ddyletswydd o 23:00 tan amser cau bob nos Wener, nos Sadwrn a nos Sul ar unrhyw benwythnos gŵyl y banc pan fydd adloniant wedi'i reoleiddio’n cael ei

ddarparu.

- Ac eithrio yn ystod Gŵyl Pontardawe neu benwythnos gŵyl y banc, bydd deiliad y drwydded mangre’n cynnal asesiad risg am yr angen am oruchwylwyr drysau ac yn darparu goruchwyliaeth ar y drysau rhwng y fath amseroedd ac yn y fath niferoedd sy'n ofynnol gan yr asesiad risg.

- Ni ddarperir cerddoriaeth wedi'i mwyhau yn ardal y maes parcio o flaen y fangre.

- Mae'r holl amodau a nodir yn Atodiad 1, 2 neu 3 y drwydded mangre’n parhau i fod yn ddilys yn ystod dyddiau digwyddiad arbennig.

- Rhaid gosod system teledu cylch cyfyng ddigidol, neu gynnal system bresennol, yn y fangre a fydd yn weithredol bob amser pan fydd y fangre ar agor i'r cyhoedd ac yn gallu darparu lluniau o ansawdd tystiolaethol ym mhob golau, yn enwedig adnabod wynebau. Rhaid i'r recordiadau teledu cylch cyfyng gael eu hamseru a'u dyddio'n gywir, a'u cadw am gyfnod o 31 diwrnod, a rhaid trefnu eu bod ar gael i'w gweld gan yr heddlu neu swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu ar gais.

  Rhaid i'r system ffilmio’r ardaloedd canlynol:-

    i. Perimedr allanol y fangre
    ii. Mynedfeydd ac allanfeydd y fangre;
    iii. Ardaloedd cyhoeddus y fangre;

- Bydd aelod o staff o'r fangre, sy'n gyfarwydd â gweithredu'r system teledu cylch cyfyng, ar y safle bob amser pan fydd y fangre ar agor i'r cyhoedd. Bydd yr aelod staff hwn yn gallu dangos a darparu data neu luniau diweddar i'r heddlu neu'r swyddog awdurdodedig gyda chyn lleied o oedi â phosib yn dilyn cais cyfreithlon.

5. EH datganiad gan dyst

Adolygwyd datganiad y tyst fel rhan o'r adroddiad atodol a ddosbarthwyd.

6. Cais am roi Trwydded Mangre - Rum and Co

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cais canlynol i gymeradwyo Trwydded Mangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| Enw'r fangre | Rum a Co. |
| Cyfeiriad y fangre | 12 Stryd Fawr, Pontardawe SA8 4HU |
| Enw'r Ymgeisydd | Gourmet Catering Solutions Cyf |
| Cyfeiriad yr ymgeisydd | 85 Heol Cilmaengwyn, Pontardawe SA8 4QW |
| Enw'r GMD | Daniel Dyer |

1. **PENDERFYNWYD:** Y byddai'r Is-bwyllgor yn cymeradwyo'r cais am drwydded mangre, gydag amodau. Byddai'r oriau gweithredu a'r amodau canlynol yn berthnasol yn ogystal ag unrhyw amodau sy'n gyson â'r amserlen weithredu.

   Oriau Agor

   Dydd Llun i ddydd Sul 09:00 – 01:00

   Cyflenwi alcohol (ar y safle ac oddi arno)

   Dydd Llun i ddydd Sul 09:00 - 00:30

   Ffilmiau (dan do)

   Dydd Llun i ddydd Sul 09:00 - 00:30

   Cerddoriaeth fyw (dan do)

   Dydd Sul i ddydd Iau 12:00 - 00:00
   Dydd Gwener a dydd Sadwrn 12:00 - 00:30

   Cerddoriaeth wedi'i Recordio (dan do ac yn yr awyr agored (gan ddibynnu ar y tywydd))

   Dydd Sul i ddydd Iau 12:00 - 00:00

Dydd Gwener a dydd Sadwrn   12:00 - 00:30

Lluniaeth yn hwyr y nos (dan do ac yn yr awyr agored (gan ddibynnu ar y tywydd))

Nos Lun i nos Sul
23:00 - 00:30

- Bydd yr ardal allanol (a nodwyd ar y cynllun fel "ciniawa teras") ar gau i gwsmeriaid rhwng 22:00 a 09:00 bob dydd, yn amodol ar yr amod canlynol.

- Bydd hawl defnyddio'r ardal allanol (a nodwyd ar y cynllun fel "ciniawa teras") ar gyfer smygu rhwng 22:00 a 09:00 ar yr amod y bodlonir yr amodau canlynol,
    - Bydd uchafswm o 4 cwsmer yn yr ardal ar unrhyw adeg.
    - Ni fydd cwsmeriaid yn mynd ag unrhyw ddiodydd na bwyd i'r ardal.
    - Bydd aelod o staff yn rheoli'r mynediad i'r ardal er mwyn sicrhau bod yr amodau uchod yn cael eu bodloni.

- Bydd o leiaf 2 oruchwyliwr drws trwyddedig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ar ddyletswydd o 22:00 tan amser cau bob nos Wener a nos Sadwrn, y nos Iau cyn Dydd Gwener y Groglith, Noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan a Nos Galan. Ar bob adeg arall, bydd deiliad y drwydded mangre'n asesu'r angen am oruchwylwyr drysau ac yn darparu goruchwyliaeth drws rhwng yr adegau hynny ac yn ôl yr angen sy'n ofynnol gan yr asesiad risg.

- Bydd pob goruchwyliwr drws yn arddangos ei drwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch mewn rhwymyn braich adlewyrchol pan fydd ar ddyletswydd.

- Bydd cofrestr ddyddiol o bersonél diogelwch yn cael ei chadw. Bydd y gofrestr yn dangos enw, cyfeiriad a rhif trwydded pob goruchwyliwr drws, a'r dyddiadau a'r amseroedd y maent yn gweithredu. Rhaid bod y gofrestr ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu a swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol.

- Bydd aelod o staff o'r fangre, sy'n gyfarwydd â gweithredu'r system teledu cylch cyfyng, ar y safle bob amser pan fydd y fangre ar agor i'r cyhoedd. Bydd yr aelod staff hwn yn gallu dangos a darparu data neu luniau diweddar i'r heddlu neu'r swyddog awdurdodedig gyda chyn lleied o oedi â phosib yn dilyn cais cyfreithlon.

- Cedwir cofnod yn rhoi manylion pob achos o wrthod gwerthu alcohol. Dylai'r cofnod gynnwys dyddiad ac amser gwrthod y gwerthu ac enw'r aelod o staff a wrthododd ei werthu. Bydd y cofnod ar gael i'w archwilio yn y fangre gan yr heddlu neu swyddog awdurdodedig y cyngor ar bob adeg tra y bydd y fangre ar agor.

- Rhaid arddangos arwyddion mewn man amlwg yn y fangre, gan ddilyn y polisi ‘Her 25'.

7. llygredd swn datganiad

Adolygwyd y datganiad am lygredd sŵn, fel rhan o'r adroddiad atodol a ddosbarthwyd.

8. Eitemau brys

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**K.Jones**
**<u>Prif Weithredwr</u>**

**Canolfan Ddnesig**

**Aelodaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Y Cynghorydd J.Henton** |
| **Is-gadeirydd:** | |
| **Aelodau:** | A.Dacey a/ac S.Paddison |
| **Rhodder:** | Cynghorwyr |
| c.c. | Superintendent of Police, Neath<br>Chief Fire Officer, Neath |